

Gellid cynnig cynhaliath dros dro ar y cam hwn.

CAM 2

Tystiolaeth Addas

Ar gyfer Anghenion Dysgu Penodol (ADPau), ewch â chopi o'ch adroddiad i'r cyfarfod. Rhaid bod yr adroddiad wedi ei gyflawni ar ôl 16 mlwydd oed, gan berson cymwys, e.e. Seicolegydd Addysg neu rywun sydd â rhif tystysgrif gyfredol. Os nad yw'ch adroddiad yn cwrdd â'r anghenion hyn, bydd angen asesiad newydd.

Am anabledau eraill, mae angen tystiolaeth gan Feddyg Teulu neu arbenigwr. Bydd rhaid i'r dystiolaeth ddangos sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch o ddydd i ddydd.

CAM 1

Cyfarfod cyntaf gydag Ymgynghorydd Anabledd

Gwnewch apwyntiad ar lein <http://dds.southwales.ac.uk/> neu drwy'r Parth Cynghori. Bydd y cyfarfod cyntaf hyn gydag Ymgynghorydd Anabledd ar gyfer trafod eich anghenion posibl ac unrhyw ddiagnosis sy'n bod eisoes. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni disabilityadviser@southwales.ac.uk

Gall pob myfyriwr ddefnyddio'r Gwasanaeth Datblygu Myfyrrwyr a Sgiliau Astudio (SDSS), sydd yn cynnig cyngor, gwybodaeth ac adnoddau i fyfyrwr

CAM 3

Asesiad ADP

Os nad oes gennych ddiagnosis, neu angen adroddiad newydd, bydd raid ichi gael asesiad newydd. Gall y Gwasanaeth Anabledd eich cefnogi chi trwy drefnu asesiad newydd trwy Ganolfan Discovery. Gall myfyrrwyr USU yr Undeb Ewropeaidd sy'n astudio 60 credyd neu fwy gael cymorth gyda chost.

Os nad ydych yn gymwys, bydd rhaid ichi dalu'r gost (£300) eich hun. <http://dds.southwales.ac.uk/dyslexia/assessment/>

Ddim yn gymwys ar gyfer cynhaliath arbenigol? Edrychwch ar y Gwasanaeth Datblygu Myfyrrwyr a Sgiliau Astudio (SDSS). <http://studyskills.southwales.ac.uk>

CAM 5

Asesiad Anghenion

Unwaith y bydd caniatâd wedi ei dderbyn drwy lythyr atoch chi oddi wrth eich corff ariannu, gallwch drefnu apwyntiad am Asesiad Anghenion ar y tudalen we canlynol: <http://www.dsa-qag.org.uk/>

Pan fydd yn gyflawn caiff copi o'ch adroddiad asesiad anghenion ei anfon atoch chi, i'r Gwasanaeth Anabledd ac i'r corff ariannu. Bydd llythyr pellachgan eich corff ariannu hefyd yn nodi pwy sydd wedi ei argymhell i ddarparu eich cymorth.

CAM 4

Lwfansau Myfyrrwyr Anabl (DSA)

Yn ystod eich apwyntiad cyntaf fe lenwir ffurflen DSA.

Wedi inni dderbyn tystiolaeth addas fe anfonir eich ffurflen DSA at eich corff ariannu, i ofyn am arian ar gyfer Asesiad Anghenion.

Sylwch nad yw pob myfyriwr yn gymwys i gynnig am DSA; am ragor o wybodaeth gwelwch: <http://dds.southwales.ac.uk/dsa/>

Cytunai'r rhan fwyaf (dros bedwar pumed) o fyfyrwyr fod cynhaliath y DSA wedi cael effaith bositif ar bob agwedd o'u perfformiad

Llywodraeth y Cynulliad, 2017

CAM 6

Cymorth/ Darpariaeth mewn Lle

Bydd natur a maint y cymorth y byddwch yn ei dderbyn yn dibynnu ar eich tystiolaeth a chaiff ei benderfynu hefyd gan effeithiau eich anabledd.

Bydd ymgynghorydd yn nodi y gynhaliath y medrwc ei derbyn, a chreu Cynllun Cynhaliath Unigol (ISP); bydd eich darlithwyr yn gallu gweld rhan o hwn (rhan B) ar Quercus.

Bydd y gynhaliath a dderbyniwch yn dibynnu ar ganlyniadau'r broses a gall gynnwys amser ychwanegol yn yr arholiadau, recordio darlithoedd, rhaglenni cyfrifiadur arbenigol neu gymorth personol penodol i'ch helpu gyda'ch astudiaethau.

"Flwyddyn ddiwethaf roeddwn yn stryglu gyda'r gwaith ond mae cefnogaeth fy nhwtor wedi helpu. Rwy'n teimlo bod derbyn cynhaliath Gwasanaeth Anabledd wir wedi bod o help yn fy ngwaith academaidd. Byddwn wir yn argymhell hybu'r gwasanaeth i'r rhai sydd yn cael trafferthion."

Myfyriwr yn derbyn cymorth Gwasanaeth Anabledd, 2018